

Derbyn Pethau



'Molwch yr Arglwydd, yr holl genhedloedd; clodforwch ef, yr holl bobloedd. Oherwydd mae ei gariad yn gryf tuag atom. Ac y mae ffyddlondeb yr Arglwydd dros byth. Molwch yr Arglwydd.' (Salm 117)

GWEDDI

O Dduw ein Tad, helpa ni drwy'r oedfa hon i allu derbyn yr hyn na allwn ei newid, helpa ni i feithrin sylfeini'r ffydd a'n hysbarduno i wasanaethu unrhyw un yn eu hangen. Helpa ni trwy ffydd i gael tawelwch meddwl a derbyn dy heddwch yng nghanol holl stormydd bywyd. Amen

EMYN 222 'Tyrd atom ni, O Grëwr pob goleuni'

DARLLENIAD: Salm 46

Cân ar CD Dylan Morris: Yr Enfys

(D.S. Ymlaen llaw cyn yr oedfa, gallwch ofyn i'r plant a oes modd iddynt ddod â llun o enfys i'r oedfa hefo nhw . . . gallent hwy eu hunain baratoi llun o enfys neu ddod â lluniau amrywiol o enfys i'r oedfa.)

Diolch i bawb ohonoch sydd wedi dod â llun o'r enfys hefo chi i'r oedfa (*gallwch alw'r plant ymlaen i ddangos eu lluniau*). Mae'r enfys yn dod i'r golwg ar ôl y glaw, wedi i'r storm dawelu. Mae lluniau'r enfys yn dal o'n cwmpas yn datgan y gobaith, fel y daw gobaith drwy bob tymor y cawn gamu i mewn iddynt. Wrth i ni ffarwelio â phob tymor yn ei dro, edrychwn ymlaen am y gobaith newydd sydd yn y tir a'r goleuni sydd yng nghanol tywyllwch. Cyhoeddwn y newyddion da fod Crist yn ein plith, a bod Gair ein Harglwydd yn rhoi gobaith pan rydym ei wir angen.

EMYN 301 'O Grist, Ffisigwr mawr y byd'

GWEDDI

O Dduw ein Tad, a Thad ein Harglwydd a'n Gwardwr Iesu Grist, ein noddfa a'n nerth, rhoddaist inni'r dydd unigryw a gwerthfawr hwn i'n hail-greu a'n hadnewyddu. Erfyniwn ar i'r Ysbryd Glân fod yn ein plith, deunw at ein gilydd i



addoli'r gwir a'r unig Dduw, gofynnwn iddo agor ein gwefusau, gan ganiatáu i'n genau fynegi ei foliant. Helpa ni i'w dderbyn fel rhodd, a gad i ni ei gymryd yn gyfle i **ti** siarad â ni . . . ac â'r byd, gan lefaru geiriau addewid a chyflawnder, geiriau calondid a chynhaliaeth, geiriau her a barn, geiriau cariad a maddeuant. Defnyddia'n lleisiau a'n meddyliau i helpu pawb sydd yma yn dy addoli di mewn ysbryd a gwirionedd, er gogoniant i Iesu Grist ein Harglwydd. Amen

DARLLENIAD: Mathew 11: 25-30

Y NEGES

Ffrindiau annwyl, peth anodd i bob un ohonom yw bod yn fodlon. Bodlon ar sut mae pethau arnom ni'n bersonol. Derbyn yr hyn na allwn ei newid. Meddyliwch am y pethau hynny na allwn eu newid – allwn ni ddim newid y tywydd, allwn ni ddim newid pobl a'u ffyrdd. Mae aml un yn ceisio newid pobl, ond allwn ni ddim newid neb. Duw yn unig drwy ei Ras all ein newid . . . er lles.

Dewch i ni ystyried rhai pethau am Dderbyn, sef beth rydym ni wedi gorfod ei dderbyn, na feddyluem ni erioed fuasai wedi dod i'n rhan, boed trwy afiechyd neu yng nghyfnod y Pandemig. Bu gorfodaeth i **dderbyn** nifer fawr o newidiadau yn ein bywydau; roedd yn rhaid i ni dderbyn pethau.

Mae derbyn newidiadau yn ein bywyd yn beth anodd – rhaid i ni ddysgu derbyn yn wylaidd a dal ati. Gwerthfawrogwn weithwyr gwasanaeth lechyd yr NHS a phawb sy'n cynorthwyo ym myd addysg ac ym myd yr amaethwyr, sy'n gwneud gwaith hanfodol.

Rydym ni wedi gweld bod yna rai pethau mae pobl wedi dewis **peidio** â'u derbyn, sef y cyfarwyddiadau. Tydi hi'n anodd cadw at y rheolau? Gorfod derbyn cyfyngiadau. Tydan ni i gyd yn cael trafferth i dderbyn pethau?

Ydych chi, o bryd i'w gilydd, yn dymuno mynd am yn ôl? Yn ôl i sut oedd pethau cyn i unrhyw newidiadau ddod i'n rhan. Allwn ni byth gyflawni dymuniadau ein Tad nefol os ydym am edrych 'nôl yn barhaus. Cofiwn eiriau Robert ap Gwilym Ddu, 'Ni werthir yn ei wrthol, Ddoe i neb, ni ddaw yn ôl.'

Ydych chi'n dyheu am gael eich hen fywyd yn ôl? Peidiwn â hiraethu am ein gorffennol, bydd hyn yn faen tramgwydd i ni rhag symud ymlaen. Ymlaen â ni heb edrych am yn ôl. 'Peidio edrych 'nol' oedd y cyfarwyddiadau i wraig Lot. Yn llyfr Genesis, gwelwn hanes gwreiddiau ein ffydd, disgynyddion Abraham, Isaac, Jacob, Esau, Joseff a'i un ar ddeg o frodyr, ac ym mhennod 19 o Genesis cawn hanes cofiadwy a dychrynlyd ym mywyd nai Abraham, sef Lot a'i deulu.

Rhybuddiwyd hwy i beidio ag edrych 'nôl wrth adael Sodom i gyfeiriad Dyffryn yr Iorddonen, a'r cyfarwyddiadau oedd 'dos, paid ag edrych yn ôl'. Fe gofiwch fod gwraig Lot wedi edrych am yn ôl. A'r canlyniad oedd cael ei throi'n Golofn o Halen. O edrych 'nôl, gan hiraethu am yr hyn oedd ganddi a'r hyn NAD oedd hi'n gyfforddus i'w adael, wrth droi am 'nol daeth canlyniad . . . anwybyddu Gair a dymuniad Duw.

Heddiw rydym yn ei foliannu Ef, ac mae Crist yn gwahodd pawb i ddod ato, 'Dewch ataf fi, bawb sy'n flinderog ac yn llwythog, ac fe roddaf fi orffwystra i chwi.' Mae 'derbyn' yn air pwysig. Beth am i ni dderbyn y gwahoddiad am fywyd yn ei holl gyflawnder, a derbyn pethau amdanom ni ein hunain sy'n anodd. Derbyn bod pobl yn methu derbyn eu hamgylchiadau. Rydyn ni'n gorfod derbyn pethau er nad ydyn ni'n eu hoffi . . .

Cofiwn am Job yn derbyn yn wrol yr hyn na allai ei newid – cystudd trwm a cholli popeth – ond 'er hyn i gyd, **ni** phechodd Job â gair o'i enau'. Yn hanes Job

dangosir i ni esiampyl o unigolyn yn derbyn pethau'n well na'r bobl o'i gwmpas. Mae'r Ysbryd Glân yn ein cynorthwyo i wynebu popeth, fel ag y gwnaeth Job. Cofiwn amdano, ar ôl iddo ef ddiodef gymaint. Derbyniodd y cwbl, gan ddisgyn i'r ddaear ac addoli ei Dduw.

Buasai sawl un ohonom ni wedi gorfod cwyno a phrotestio am y cwbl, ond derbyn y cwbl **na** allai ei newid wnaeth Job. Peidiwch â gwastraffu'ch egni i ddymuno'r hyn na allwn ei gael. Ga i ddweud yr hyn rydych chi gyd yn gwybod yn barod . . . Rhaid derbyn pethau fel ag y mae hi arnom. Ond, fel nifer o bethau eraill mewn bywyd, 'Haws dweud na gwneud'. Yn sicr, NID ydym yn gallu delio ag unrhyw newidiadau yn hawdd . . .

Un o amodau derbyn ydi rhoi i mewn i'r newidiadau . . . Derbyn pethau na fedrwn eu newid, trio bod mewn heddwch â ni'n hunain i dderbyn beth sydd raid ei dderbyn, derbyn y newidiadau . . . nad ydym yn eu dymuno. Trwy Ras Duw ein Tad a thad ein Harglwydd a'n Gwaredwr Iesu Grist, gallwn ddod trwy unrhyw beth. Iddo Ef y bo'r clod, y parch a'r bri. Amen

EMYN 357 'Wrth rodio gyda'r Iesu ar y daith'

Y FENDITH

Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân fyddo gyda chwi oll. Amen

(C.A.)